# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 1

RHEOLI CYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

*Gweithredu'r polisi cenedlaethol ar sail ardaloedd*

### 12 Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i weithredu datganiadau ardal

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo corff cyhoeddus i gymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol er mwyn ymdrin â'r materion a bennir mewn datganiad ardal o dan adran 11(3).

(2) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff cyhoeddus y maent yn bwriadu ei gyfarwyddo.

(3) Pan roddir cyfarwyddyd i gorff cyhoeddus o dan yr adran hon, rhaid i'r corff gydymffurfio ag ef.

(4) Ni chaiff cyfarwyddyd o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus wneud rhywbeth na chaniateir iddo ei wneud fel arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(5) Mewn perthynas â chyfarwyddyd o dan yr adran hon—
- (a) rhaid iddo gael ei gyhoeddi;
- (b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;
- (c) mae'n orfodadwy drwy orchymyn gorfodi ar gais gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 12.